

No.

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y Cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd D. Patel.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr M. Michael (Cadeirydd) a Mrs. N. Mackie.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr E. Williams (Is-gadeirydd) a P. Drake (Yn dirprwyo ar ran Cynghorydd J.W. Thomas)

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Ymddiheuriadau Am Absenoldeb –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorydd D. Lewis (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) a Cynghorydd J.W. Thomas (Cyngor Bro Morgannwg).

(c) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

(d) Datganiadau Diddordeb –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

(e) Archwilio Cymru 2021 Cynllun Archwilio (PC/SA151) –

Roedd angen i Archwilio Cymru (AC), fel archwilydd enwebedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, wneud gwaith mewn perthynas â'r canlynol:

- Archwilio'r Datganiadau Ariannol;
- Gwerth am arian;
- Gwelliant Parhaus;
- Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion ynghylch sut y byddai AC yn cwblhau'r gwaith yn 2021.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y Cynllun Archwilio arfaethedig ar gyfer 2021 a chytuno iddo.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – Dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(f) Archwilio Cymru - Ymholiadau Archwilio I'r Rhai Sy'n Gyfrifol Am Lywodraethu A Rheoli (PC/SA151) –

Roedd angen i Archwilio Cymru archwilio cyfrifon ariannol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 yn unol â'r gofynion a nodir yn y Safonau Archwilio Rhyngwladol (SARh).

Yn rhan o ofynion y SARh, ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pennaeth Cyllid yn gofyn am farn ar nifer o feysydd llywodraethu sy'n effeithio ar y gwaith o archwilio'r cyfrifon sy'n berthnasol i'r rheolwyr a'r "rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu".

Nodwyd y meysydd llywodraethu hynny lle y ceisiwyd barn arnynt yn Atodiad A yr adroddiad ynghyd ag ymateb y Cyngor a oedd yn cwmpasu:

Materion twyll – Atodiad 1

Materion cyfreithiau a rheoliadau – Atodiad 2; a

Materion partïon cysylltiedig – Atodiad 3.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – Dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(g) Archwiliad O Ddatganiadau Ariannol Srs 2020/21 (PC/SA151) –

Roedd camau terfynol yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 yn cael eu cwblhau.

Roedd Datganiad Cyfrifon diweddaraf 2020/21 yn cynnwys yr holl ddiwygiadau y cytunwyd arnynt ac fe'i cyflwynwyd yn awr i Bwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

O ganlyniad i effaith pandemig Covid-19, roedd y dyddiad cau ar gyfer archwilio wedi newid o 31 Gorffennaf 2021 i 30 Tachwedd 2021.

Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon wedi'i archwilio i'r Pwyllgor hwn er mwyn iddo ei gymeradwyo, fel sy'n ofynnol dan delerau'r Cytundeb Cydweithio. Cadarnhawyd, pe baent yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor, y byddai'r Cyfrifon wedyn yn cael eu llofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 at y tanwariant o £250k ar gyfer y gwasanaeth yn 2020/21 a chytunwyd y dylid cyflwyno cynnig ar gyfer sut y dylid ymdrin â hyn i Gadeirydd y Pwyllgor i'w ystyried.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod Cadeirydd y Pwyllgor yn cymeradwyo, llofnodi a dyddio Datganiad Cyfrifon y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir 2020/21.
- (2) Bod Cadeirydd y Pwyllgor yn cytuno, yn llofnodi ac yn dyddio'r Llythyr Cynrychiolaeth i Archwiliad Cymru ar gyfer 2020/21.
- (3) Bod adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar archwiliad y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir ar gyfer 2020/21 yn cael ei nodi.
- (4) Bod Cadeirydd y Pwyllgor, Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir a Phennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn cymeradwyo, llofnodi a dyddio Datganiad Llywodraethu Blyneddol 2020 y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir 2020/21.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn i'r Datganiad Cyfrifon gael ei gymeradwyo cyn y dyddiad cau.

No.

(2) Er mwyn dychwelyd y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i lofnodi i Archwiliad Cymru.

(3) Gan ystyried canlyniadau'r archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2020/21 y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir.

(4) Er mwyn cymeradwyo a llofnodi Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2020/21 y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir.

(h) Trosolwg A Diweddariad Ar Wasanaethau Rheoleiddio A Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y Gwasanaeth a'i gynnydd tuag at gwblhau'r camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn amlinellu sut roedd y gwasanaeth yn gweithio i gyflawni canlyniadau gwell i drigolion a busnesau o fewn y rhanbarth drwy gyfres o wahanol gamau gweithredu a rhaglenni gwaith gan gynnwys effaith Covid-19. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r gweithgareddau a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2021, a nodir dan y meysydd canlynol:

- Adnoddau Dynol
- Sefyllfa Ariannol Chwarter 1 – Atodiad 1
- Monitro Perfformiad – Atodiad 2
- Diweddariad Gwasanaeth – Gwaith sy'n gysylltiedig â Covid-19 gan gynnwys (mae ffeithlun yn
- Atodiad 3);
- Cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir
- Cynllun Clefydau Troslgwyddadwy
- Archwiliadau ac Asesiadau
- Deddfwriaeth newydd gan gynnwys petrol E10; Eco-ddylunio a labelu; a labelu alergenau bwyd
- Gweithgarwch Gorfodi – Atodiad 4

Canmolodd y Cynghorydd N. Mackie berfformiad ac effaith y Tîm Gorfodi ar y Cyd yn ystod pandemig Covid-19 ac roedd yn gobeithio y byddai hyn yn parhau. Gofynnodd hefyd pryd y byddai swyddogion ymchwilio i sŵn yn cael mynd i mewn i eiddo. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth fod yr ymweliadau hyn eisoes wedi ailddechrau hyn ond y byddai angen cynnal asesiad risg.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – Nodi a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(i) Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd A Diogelwch 2021/22 Y Gwasanaethau Rheoleiddio A Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y Tîm Iechyd a Diogelwch a gofynnodd i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2021/22 gael ei gymeradwyo.

Ar ôl i'r Cydbwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2021/22.
- (2) Bod Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir yn cael ei awdurdodi i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2021/22 pe bai'r angen yn codi.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Caniatáu i Bennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir wneud diwygiadau gweinyddol pe bai'r angen yn codi.

(j) Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd A Phorthiant Gwasanaethau Rheoleiddio A Rennir 2021/22 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir mewn perthynas â chyfraith Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid. Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor gymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2021/22.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Williams at newidiadau sylweddol o fewn y Cynllun newydd, a gofynnodd a oedd digon o adnoddau staff ar gael. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir y byddai cyfarfodydd rheolaidd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) lle byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn cael ei chyflwyno. Felly, roedd yr ASB yn ymwybodol bod swyddogion y Gwasanaethau Rheoliadol a Rhennir wedi cael eu symud i ymateb i bandemig Covid-19. Dyna pam yr oedd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi mabwysiadu dull ar sail risg i sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r safleoedd risg uwch.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, y Cynghorydd M. Michael, at y pwysau cynyddol ar staff a gofynnodd a oedd unrhyw ffordd y gallai costau gwasanaeth gael eu hadennill oddi wrth y busnesau hynny a oedd yn destun camau gorfodi. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaeth y byddai hyn yn cael ei ystyried.

No.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant Bwyd Anifeiliaid 2021/22.
- (2) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn ymchwilio i'r posibilrwydd y codir taliadau ariannol am gamau gorfodi a ddygir yn erbyn unrhyw fusnesau risg uchel.
- (3) Bod Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir yn cael ei awdurdodi i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2021/22 pe bai'r angen yn codi.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Yn dilyn cais gan y Cydbwyllgor am ymchwiliad i'r posibilrwydd o godi tâl ariannol am gamau gorfodi a ddygir yn erbyn busnesau risg uchel.
- (3) Caniatáu i Bennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir wneud diwygiadau gweinyddol pe bai'r angen yn codi.

(k) Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio A Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am ymddeoliad arfaethedig Pennaeth presennol y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir a gofynnodd am gymeradwyaeth i ddechrau proses recriwtio ym mis Hydref 2021.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –Bod y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn cael ei awdurdodi i ddechrau proses recriwtio i benodi Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir newydd

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir Bennaeth Gwasanaeth yn y swydd o 1 Ebrill, 2022 i gydymffurfio â gofynion y Cytundeb Gweithio ar y Cyd.